ARCHIF MENYWOD CYMRU
WOMEN'S ARCHIVE OF WALES

Registered Charity No. / Elusen Gofrestredig Rhif. 1090794

www.womensarchivewales.org

ANNUAL REPORT

ADRODDIAD BLYNYDDOL

April 2013 – March 2014

CHAIR'S REPORT

This has again been a busy year, with the oral history project Lleisiau o Lawr y Ffatri / Voices from the Factory Floor in full swing and a number of other initiatives under way. Your committee has continued to meet bi-monthly, mainly by video link between Swansea and Bangor, and we have to thank the Wales Video Network for their help and the use of their facilities. We also held one face-to-face meeting at the Glamorgan Archives in Cardiff, when committee members from various parts of Wales and beyond met together to discuss future plans for AMC/WAW. We were delighted to welcome two new committee members this year, Val Wakefield from Beaumaris in Anglesey and Rhian Greaves who comes from Llantrisant but works in Bristol. A number of sub-groups of both committee and other members have worked on specific projects and each committee member has her individual responsibility as well as working as a group.

The summer of 2013 was occupied with preparations for the oral history project, recruiting and appointing our three field workers, seeking volunteer interviewers from among the Archive membership and holding a training session for the field workers. The project was launched at the annual conference in October, and was soon well underway. Meetings of the Project Management Group have been held regularly since we were first awarded the grant by the Heritage Lottery Fund. Match-funding came through grants from Unite Union, Community Union and the Ashley Family Foundation, and generous donations from Archive members during last year's conference. Thanks are due to all these people and organisations, and also for the enormous amount of time and work contributed by the Project Co-ordinator Catrin Stevens, the three field workers, Susan Roberts, Catrin Edwards and Kate Sullivan, and all the member volunteers who took part in the project and helped to save this important piece of Welsh women's history.

For a second time, we held a Welsh language lecture on women's history at the National Eisteddfod, this time in Denbigh, when Dr Pam Michael spoke on 'Women as Patients and Staff at Denbigh Mental Hospital. There was also a reading from the journal of the artist Brenda Chamberlain, who was once a patient, and several people spoke of their memories of the hospital. Some 45 people attended the event. Thank you to the group of members

who continue to organise these lectures, Catrin Stevens, Luned Meredith, Roseanne Reeves and Siân Rhiannon Williams, and also to the anonymous member who paid the costs of the event. We hope that the AMC/WAW Eisteddfod Lecture will become an annual event.

Our 16th Annual Conference was held in Merthyr Tydfil in October and attended by 57 people. A highlight of the conference was a talk by Sheila Parry (née Davies) recalling her struggle for equal rights for women students at Bangor Normal College in 1952. We were all moved and inspired by this remarkable woman, and delighted that Sheila has not only joined the Archive but most kindly donated her papers relating to that traumatic time to our collection. They are now held at Glamorgan Archives, because Sheila was born and grew up in the Rhondda. As well as several other excellent talks, a project was launched to build a database of 'memorable women' which will eventually form a useful resource for future researchers, and points raised in a discussion on the future of AMC/WAW are now being considered by the Committee. The Conference Dinner was held in the Castle Hotel and was a convivial occasion.

Also in October Archive members Annie Williams and Shan Robinson organised a half-day seminar in Bangor University on women in the First World War, which was well attended and appreciated.

In February Christine Chapman, AM for Cynon Valley and a long-time Archive member, hosted a reception at the Senedd, home of the Welsh Government. Guests and invitees included our members, representatives of women's and other relevant organisations in Wales, AMs and others who have in various ways helped or supported the Archive. It was again a successful event with some inspiring talks, displays of our photographic collections and welcome refreshments. Many thanks to Christine and the Senedd staff for making this occasion possible.

International Women's Day was once more celebrated by the annual Ursula Masson Memorial Lecture hosted by the University of South Wales (University of Glamorgan). This year's speaker, Professor Katie Gramich, delivered a superb lecture on women novelists of Wales. The Archive is proud and happy to support this event which commemorates our founder and dear friend. We are grateful to the University, and also to Ursula's niece Helen Molyneux and to Admiral Insurance for their generous contributions.

Preparations were underway for a joint day school with Llafur which was held in May 2014. The Archive and Llafur have many interests – as well as members – in common and we hope that some kind of joint meeting will become an annual event in both our programmes.

During the year the committee also considered the implications of the Charity Commission's new governing structure for charities, and whether AMC/WAW should become a Charitable Incorporated Organisation (CIO). At our AGM in October, members voted to empower the Committee to take this matter forward, and I am hugely grateful to our Secretary, Avril Rolph, for the effort and time she has put into this difficult work, ably assisted by Elin Jones.

Committee members have given talks or in other ways represented the Archive at events held by other organisations: Gelli Gaer Historical Society, Llafur, Llanelli Co-operative Women's Guild, Merched y Wawr, Morol (Wales and the Sea) annual conference, National Eisteddfod, Neath Antiquarian Society, the Swansea Blue Plaque Scheme, Swansea Central Library, and the Wales Maritime Festival, also talks about the Voices from the Factory Floor

project on BBC Cymru, Radio Cymru, Radio Wales and S4C. We have responded to a request for comments on the Welsh Government's report Cwricwlwm Cymreig and written letters of support for other organisations. A number of Archive members have launched books on various aspects of Welsh women's history, and our congratulations go to all of them.

All in all we have had a successful year: projects driven forward, collections added to and membership increased. Archif Menywod Cymru / the Women's Archive of Wales could not continue its work without the support and practical help of many others, most particularly the County Archives of Wales and the National Library of Wales, who hold and care for our collections and make them available to the public. We are also most grateful to the staff of the South Wales Miners' Library and of Glamorgan Archives for help in many ways. My personal thanks go to the members of our magnificent committee who one and all give unstintingly of their time and expertise, and for the same reason to our co-opted committee members Yvonne Jardine and Jen Wilson and our Collections Advisors Susan Edwards and Charlotte Hodgson. Finally, thank you to all our members for your support, help and enthusiasm.

Jenny Sabine

ADRODDIAD Y CADEIRYDD Ebrill 2013 i Fawrth 2014

Mae hon wedi bod yn flwyddyn brysur gyda'r prosiect hanes llafar Lleisiau o Lawr y Ffatri / Voices from the Factory Floor yn mynd o nerth i nerth a nifer o fentrau eraill ar y gweill. Mae'r pwyllgor wedi parhau i gwrdd bob deufis, yn bennaf trwy gyswllt fideo rhwng Abertawe a Bangor, a rhaid diolch i Rwydwaith Fideo Cymru am ei help ac am gael defnyddio'r cyfleusterau. At hyn cynhaliwyd un cyfarfod wyneb yn wyneb yn Archifau Morgannwg, lle bu aelodau'r pwyllgor o ledled Cymru a thu hwnt yn cwrdd i gyd-drafod cynlluniau AMC/WAW at y dyfodol. Roeddem wrth ein bodd i gael croesawu dwy aelod newydd eleni, Val Wakefield o Fiwmares, Ynys Môn a Rhian Greaves sy'n dod o Lantrisant ond yn gweithio ym Mryste. Bu nifer o is-grwpiau o blith aelodau'r pwyllgor ac aelodau eraill yn gweithio ar brosiectau penodol ac y mae gan bob aelod o'r pwyllgor ei chyfrifoldeb ei hun yn ogystal â gweithio fel grŵp.

Treuliwyd llawer o haf 2013 yn paratoi ar gyfer y prosiect hanes llafar, yn recriwtio a phenodi ein tair swyddog maes, yn chwilio am gymorth gwirfoddolwyr i gyfweld o blith aelodau'r Archif ac yn cynnal sesiynau hyfforddiant i'r gweithwyr maes. Lansiwyd y prosiect yn ystod y gynhadledd flynyddol yn yr hydref, a chyn pen dim roedd wedi dechrau o ddifrif. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gan y Grŵp Rheoli Prosiect ers inni gael y grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Llwyddwyd i sicrhau arian cyfatebol trwy grantiau gan undeb Unite, Community Union a'r Ashley Family Foundation, a rhoddion hael gan aelodau'r Archif yn ystod y gynhadledd llynedd. Rydym yn ddyledus iawn i'r holl bobl a'r sefydliadau hyn ac am yr holl waith ac amser a roddwyd i'r prosiect ac i Gydlynydd y Prosiect, Catrin Stevens, y tair swyddog maes, Susan Roberts, Catrin Edwards a Kate Sullivan, a'r holl aelodau gwirfoddol sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect i helpu diogelu'r agwedd bwysig hon o hanes menywod yng Nghymru.

Am yr ail dro yn olynol, trefnwyd darlith Gymraeg ar hanes menywod yn yr Eisteddfod Genedlaethol, yn Ninbych y tro hwn, pan siaradodd Dr Pam Michael ar 'Menywod yn Gleifion

a Staff yn Ysbyty Meddwl Dinbych'. Cafwyd darlleniad hefyd o ddyddiadur yr artist Brenda Chamberlain, a fu'n glaf yno, a siaradodd nifer o'r gynulleidfa am eu hatgofion o'r ysbyty. Mynychodd tua 45 o bobl y digwyddiad. Diolch i'r grŵp o aelodau sy'n parhau i drefnu'r darlithoedd hyn: Catrin Stevens, Luned Meredith, Rosanne Reeves and Siân Rhiannon Williams, a hefyd i'r aelod dienw a dalodd gostau'r digwyddiad. Gobeithio y bydd Darlith Eisteddfodol AMC/WAW yn dod yn ddigwyddiad blynyddol.

Cynhaliwyd ein 16eg Cynhadledd Flynyddol ym Merthyr Tudful yn yr hydref a mynychwyd hi gan 57 o bobl. Un o uchafbwyntiau'r gynhadledd oedd sgwrs gan Sheila Parry (née Davies) yn dwyn i gof ei hymdrech dros hawliau cyfartal i fyfyrwragedd Coleg y Normal Bangor yn 1952. Cawsom i gyd ein cyffwrdd a'n hysbrydoli gan y wraig ryfeddol hon, ac rydym wrth ein bodd fod Sheila, nid yn unig wedi ymuno â'r Archif ond wedi rhoi ei phapurau yn ymwneud â'r cyfnod trawmatig hwnnw, yn garedig iawn yn ein casgliad. Maent ar adnau yn awr yn Archifau Morgannwg, oherwydd ganwyd a magwyd Sheila yn y Rhondda. Cafwyd sawl sgwrs ardderchog arall, ac at hyn lansiwyd prosiect i adeiladu cronfa ddata o 'fenywod cofiadwy' a fydd yn y pen draw yn adnodd defnyddiol i ymchwilwyr, ac mae'r pwyntiau a godwyd mewn trafodaeth ar ddyfodol AMC/WAW yn cael eu hystyried yn awr gan y Pwyllgor. Cynhaliwyd Cinio'r Gynhadledd yng Ngwesty'r Castell ac roedd yn achlysur hwyliog.

Ym mis Hydref hefyd trefnodd dwy o aelodau'r Archif, Annie Williams a Shan Robinson, seminar hanner diwrnod ym Mhrifysgol Bangor ar fenywod yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Mynychwyd ef gan gynulleidfa dda a gwerthfawrogol.

Ym mis Chwefror cynhaliodd Christine Chapman, AC Cwm Cynon ac aelod ers tro o'r Archif, dderbyniad yn y Senedd ym Mae Caerdydd, cartref Llywodraeth Cymru. Ymhlith y gwestai a'r gwahoddedigion roedd ein haelodau, cynrychiolwyr o fudiadau menywod a mudiadau perthnasol eraill yng Nghymru, ACau ac eraill sydd wedi helpu a chefnogi'r Archif. Unwaith eto, roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus gyda sgyrsiau ysbrydoledig, arddangosfeydd o'n casgliad lluniau a lluniaeth blasus. Diolch yn fawr i Christine a staff y Senedd am hwyluso'r digwyddiad hwn.

Dathlwyd Diwrnod Rhyngwladol y Menywod unwaith eto trwy gynnal Darlith Goffa Ursula Masson trwy nawdd Prifysgol De Cymru (Prifysgol Morgannwg). Y siaradwraig eleni oedd yr Athro Katie Gramich, a gyflwynodd ddarlith ragorol ar nofelwyr benywaidd o Gymru. Mae'r Archif yn falch ac yn hapus i gefnogi'r digwyddiad hwn sy'n coffáu ein sefydlydd a'n ffrind annwyl. Rydym yn ddiolchgar i'r Brifysgol, a hefyd i nith Ursula, Helen Molyneux ac Admiral Insurance am eu cyfraniadau hael.

Ym mis Mai 2014 roeddem yn paratoi ar gyfer ein diwrnod ar y cyd â Llafur. Mae gan yr Archif a Llafur lawer yn gyffredin - yn ogystal ag aelodau'n gyffredin - ac rydym yn gobeithio y bydd rhyw fath ar ddigwyddiad blynyddol ar y cyd o'r fath yn dod yn rhan o raglenni'r ddau fudiad.

Yn ystod y flwyddyn bu'r pwyllgor yn ystyried oblygiadau strwythur reoli newydd y Comisiwn Elusennau ar gyfer elusennau, ac a ddylai AMC /WAW fod yn Gymdeithas Gorfforedig Elusennol (CIO). Yn ein Cyfarfod Blynyddol yn yr hydref rhoddwyd caniatâd i'r Pwyllgor fynd â'r mater hwn ymhellach ac rwy'n ddyledus dros ben i'n Hysgrifennydd, Avril Rolph, am eu llafur a'r amser y mae wedi'u roi i'r gwaith dyrys hwn, gyda chefnogaeth fedrus Elin Jones.

Mae aelodau'r Archif wedi rhoi sgyrsiau neu wedi cynrychioli'r Archif mewn nifer o ddigwyddiadau gan fudiadau eraill: Cymdeithas Hanes Gelli Gaer, Llafur, Llanelli Co-operative Women's Guild, Merched y Wawr, Cynhadledd Flynyddol Morol (Cymru a'r Môr), Yr Eisteddfod Genedlaethol, Cymdeithas Hynafiaethau Castell-nedd, Cynllun Placiau Glas Abertawe, Llyfrgell Ganolog Abertawe, a Gŵyl Forol Cymru, a chafwyd sgyrsiau am y prosiect Lleisiau o Lawr y Ffatri ar BBC Cymru, Radio Cymru, Radio Wales ac S4C. Rydym wedi ymateb i gais am sylwadau ar adroddiad Llywodraeth Cymru ar y Cwricwlwm Cymreig ac wedi ysgrifennu llythyron i gefnogi mudiadau eraill. Mae nifer o aelodau'r Archif wedi lansio llyfrau ar agweddau ar hanes menywod yng Nghymru, ac rydym yn eu llongyfarch un ac oll.

Rhwng popeth rydym wedi cael blwyddyn lwyddiannus: prosiectau yn bwrw ymlaen a'u gwaith, ychwanegu at ein casgliadau a chynnydd yn yr aelodaeth. Ni allai Archif Menywod Cymru / the Women's Archive of Wales barhau i weithio heb gymorth a chefnogaeth ymarferol nifer o bobl eraill, yn fwyaf arbennig Archifau Sirol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, sy'n cadw ac yn gofalu am ein casgliadau ac yn eu gwneud yn hygyrch i'r cyhoedd. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i staff Llyfrgell Glowyr De Cymru ac Archifau Morgannwg am bob math o gymorth. Hoffwn ddiolch yn bersonol i'n pwyllgor rhagorol sydd wedi rhoi cymaint o'u harbenigedd a'u hamser mor ddibrin i'r gwaith, ac am yr un rheswm i'n haelodau pwyllgor cyfetholedig Yvonne Jardine a Jen Wilson a'n Ymgynghorwyr Casgliadau, Susan Edwards a Charlotte Hodgson. I orffen, diolch i'n holl aelodau am eich cefnogaeth, eich cymorth a'ch brwdfrydedd.

Jenny Sabine

TREASURER'S REPORT

General funds:

For the first time ever, the income from membership subscriptions has topped £2,000 for the year. This involved some chasing up by the Membership Secretary and myself, but the result is good. There have also been two large donations; one to meet Eisteddfod expenses, and the other to contribute to a savings account with Nationwide.

There was a large profit from the annual conference in Merthyr, primarily because of the low cost of the excellent Soar Centre. £500 of this profit has been reserved for a small future project.

Expenditure was much lower again on printing and postage because most members now receive the newsletter by email. This is a huge saving. Of note was a one-off payment made for the catering for our event at the Senedd.

Heritage Lottery Fund grant:

This project has involved a great deal of work by Catrin Stevens, and the financial aspects have taken up a lot of my time. After our initial worries, the fundraising for the essential match funding was entirely successful. The Laura Ashley Foundation was the major donor, but we are also grateful to the Unite Union, the Community Union, donations from members

at conference, the Gift Aid on those donations, and an indirect donation from the Manic Street Preachers.

The expenditure of the HLF grant is well in line with our application. So overall it was a positive year in financial terms.

Gail Allen

ADRODDIAD Y TRYSORYDD AR GYFER

Cronfeydd cyffredinol:

Am y tro cyntaf erioed, mae'r incwm o danysgrifiadau aelodaeth wedi cyrraedd dros £2,000 am y flwyddyn. Golygodd hyn rywfaint o ymchwil gen i a'r Ysgrifennydd Aelodaeth, ond mae'r canlyniad yn dda. At hyn cafwyd dwy rodd fawr; un i gwrdd â chostau'r Eisteddfod, a'r llall i gyfrannu at gyfrif cadw gyda Nationwide.

Cafwyd elw mawr o'r gynhadledd flynyddol ym Merthyr, yn bennaf oherwydd cost isel Canolfan ardderchog Soar. Neilltuwyd £500 o'r elw hwn ar gyfer prosiect bach yn y dyfodol.

Roedd costau yn is o safbwynt argraffu a phostio eto oherwydd bod y rhan fwyaf o'r aelodau yn derbyn eu cylchlythyr trwy e-bost yn awr. Mae hyn yn arbediad sylweddol. Dylid nodi inni wneud taliad unigol am yr arlwyo ar gyfer ein digwyddiad yn y Senedd.

Grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Mae'r prosiect hwn wedi golygu llawer iawn o waith i Catrin Stevens, ac mae'r agweddau cyllidol wedi mynd â llawer o'm hamser i. Ar ôl pryderon cychwynnol, bu'r ymgyrch godi arian i gael arian cyfatebol i gyfraniad y Loteri yn gwbl lwyddiannus. Y Laura Ashley Foundation oedd y cyfrannwr pennaf, ond rydym yn ddiolchgar hefyd i undeb Unite, Community Union, rhoddion gan aelodau yn y gynhadledd, Cymorth Rhodd ar y rhoddion hyn, a rhodd anuniongyrchol gan y Manic Street Preachers.

Mae gwariant grant CDL yn ddiogel o fewn terfynau ein cais. Rhwng popeth felly, bu'n flwyddyn gadarnhaol o safbwynt ariannol.

Gail Allen

MEMBERSHIP SECRETARY'S REPORT

Over the past year we have gained 18 new paying members and we hope that work such as that of the current project, Voices from the Factory Floor, will encourage new members in the months to come. Sadly we have lost a number of long standing members through bereavement. There have also been a number of others who have chosen or been unable, for various reasons, to continue with their subscription. Membership figures now refer to the total number of members with full voting rights which currently stands at 225.

The subscription rates have remained unchanged since WAW was founded: £5 / £10 for individuals, £15 for organisations.

The membership includes the following full paying organisations: Carmarthenshire Archives, Honno, Glamorgan Archives, Gwent Record Office, Jazz Heritage Wales, Minority Ethnic Women's Network (MEWN), Powys Archive, Richard Burton Archives Swansea University, University of Wales Trinity St David, Swansea Museum, West Glamorgan Archives, Swansea Reference Library, Winding Snake Productions, Ynys Mon Archive.

Members can be found across Wales from Bangor to Cardiff and Pembrokeshire and outside Wales in areas such as Yorkshire and in countries such as Ireland, Scotland and Australia.

The most effective way for subscriptions to be paid remains by standing order. It is more time-consuming for us to ensure that cheque payments are made annually, especially where members don't have an email address, or have not informed us of a change in email address, so please do consider subscribing by standing order if at all possible. Please ensure all changes in membership details, particularly email addresses are notified to the Membership Secretary as soon as possible.

Members' subscriptions remain the main source of income for the organisation. Membership is also available to give as a gift with one year's subscription being £10, two years £17 and three years £25.
Membership forms are available on the website:

www.womensarchivewales.org

I will also be happy to contact individuals or forward membership forms to those who may be interested in joining.

Sue Thomas
Membership Secretary membership@womensarchivewales.org

ADRODDIAD YR YSGRIFENNYDD

Yn ystod y flwyddyn aeth heibio rydym wedi ennill 18 o aelodau newydd sy'n tanysgrifio a gobeithiwn y bydd gwaith fel y prosiect cyfredol, Lleisiau o Lawr y Ffatri, yn denu rhagor o aelodau atom yn ystod y misoedd nesaf. Ond rydym, yn drist iawn, wedi colli nifer o aelodau hir sefydlog trwy brofedigaeth. Mae nifer o aelodau eraill sydd wedi dewis, neu wedi methu, am amryfal resymau, parhau i danysgrifio. Mae'r ffigurau Aelodaeth yn awr yn cyfeirio at gyfanswm nifer yr aelodau â hawl pleidleisio llawn, sef, yn gyfredol 225.

Mae'r cyfraddau tanysgrifio wedi parhau'n ddigyfnewid ers sefydlu AMC: £5 / £10 i unigolion, £15 i sefydliadau.

Mae'r aelodaeth yn cynnwys y sefydliadau canlynol sy'n talu'n llawn: Archifau Sir Gaerfyrddin, Honno, Archifau Morgannwg, Archifau Gwent, Treftadaeth Jazz Cymru, Rhwydwaith y Menywod o Leiafrifoedd Ethnig (MEWN), Archifau Powys, Archifau Richard Burton Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Amgueddfa Abertawe, Archifau Gorllewin Morgannwg, Llyfrgell Gyfeirio Abertawe, Cynyrchiadau Winding Snake, Archifau Ynys Môn.

Ceir aelodau ledled Cymru o Fangor i Gaerdydd a Sir Benfro a thu allan i Gymru mewn siroedd fel Swydd Efrog a gwledydd fel Iwerddon, yr Alban ac Awstralia.

Y dull mwyaf effeithiol o dalu tanysgrifiad o hyd yw trwy archeb sefydlog. Mae'n mynd â mwy o'n hamser ni i sicrhau bod sieciau wedi'u talu'n flynyddol, yn enwedig pan nad oes gan yr

aelod gyfeiriad e-bost, neu nad ydynt wedi'n hysbysu am newid cyfeiriad e-bost, felly ystyriwch godi archeb sefydlog o ddifrif os gwelwch yn dda os yw hynny'n bosibl o gwbl. Sicrhewch eich bod yn hysbysu'r Ysgrifennydd Aelodaeth cyn gynted â phosibl os ydych wedi newid eich manylion aelodaeth, yn enwedig eich cyfeiriad ebost.

Tanysgrifiadau aelodau yw prif ffynhonnell incwm y gymdeithas o hyd. Gellir rhoi tâl aelodaeth fel rhodd yn ogystal, gydag aelodaeth blwyddyn yn £10, dwy flynedd yn £17 a thair blynedd yn £25.
Mae ffurflenni aelodaeth ar gael ar y wefan:

www.womensarchivewales.org
Rwy'n fodlon iawn i gysylltu ag unigolion neu i anfon ffurflenni aelodaeth at unrhyw un hoffai ymaelodi.

Sue Thomas, Ysgrifennydd Aelodaeth, membership@womensarchivewales.org

AMC / WAW Committee Pwyllgor AMC / WAW (2013-14)

President / Llywydd - **Emeritus Professor / Yr Athro Emeritws Deirdre Beddoe**

Vice Presidents / Is-Lywydd - **Avril Rolph & Jenny Sabine**

Jenny Sabine (Chair / Cadeirydd)

Gail Allen (Treasurer / Trysorydd)

Avril Rolph (Secretary / Ysgrifennydd)

Rosemary Scadden (Publicity Officer/ Swyddog Cyhoeddusrwydd)

Sue Thomas (Membership Secretary / Ysgrifennydd Aelodaeth)

Catrin Stevens (Welsh language advisor / Ymgynghorydd y Gymraeg)

Caroline Fairclough (Newsletter Editor / Golygydd Cylchlythyr & Web Manager / Rheolwr y Wefan

Sue Trevelyan-Jones

Shan Robinson

Elin Jones

Val Wakefield

Rhian Greaves

Susan Edwards /Charlotte Hodgson (Archives Advisors / Ymgynghorydd Archifau, co-opted / cyfetholedig)

Jen Wilson (Jazz Heritage Wales, co-opted / cyfetholedig)

Yvonne Jardine (MEWN Cymru, co-opted / cyfetholedig)